

Cymunedau Creadigol: Cyd-greu Arloesedd Cynhwysol

Mae Cymunedau Creadigol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) yn rhannu gweledigaeth ar gyfer arloesedd cynhwysol drwy ymchwil a datblygu cydweithredol wedi'i greu ar y cyd.

Mae 'Cymuned Greadigol' yn disgrifio proses sy'n seiliedig ar le o ymchwil a datblygu cydweithredol traws-sector sy'n dod â phartneriaid ynghyd sy'n rhannu'r nod o greu gwerth economaidd a chymdeithasol drwy weithgarwch diwylliannol newydd. Ers 2012, mae gwaith Ymchwil a Datblygu Cymunedau Creadigol wedi cynyddu o ganlyniad i gyd-destunau cyfoes gan gynnwys Brexit, y pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw a'r argyfwng ynni.

Mae ein hadroddiad newydd - [Gan Bawb, I Bawb: Grym Partneriaeth] (https://www.creativecommunities.uk/research_articles/creative-communities-deep-dive-report/) - yn mapio degawd o waith Ymchwil a Datblygu cydweithredol traws-sector a ariannwyd gan AHRC ers 2012 hyd heddiw ac mae'n archwilio 1600 a mwy o bartneriaid anacademaidd sydd wedi ymgysylltu â gwaith Ymchwil a Datblygu Cymunedau Creadigol AHRC ar draws pedair gwlad y DU ac ym mhob rhanbarth o Loegr. Mae'n datgelu am y tro cyntaf, gyrhaeddiad a graddfa gwaith Ymchwil a Datblygu cydweithredol traws-sector wedi'i ariannu gan AHRC gyda chymunedau a phartneriaid anacademaidd, yn benodol y rhai sydd wedi'u heffeithio gan anghydraddoldebau daearyddol, economaidd a chymdeithasol.

Mae'r adroddiad yn proffilio astudiaethau achos enghreifftiol o sut y gall partneriaid a chymunedau traws-sector sy'n ymgysylltu â gwaith Ymchwil a Datblygu wella ansawdd a gwytnwch, cyrhaeddiad a chynaliadwyedd arloesedd a galwadau am fwy o gydweithredu gyda chymunedau er mwyn cyflawni cenadaethau Ymchwil a Datblygu a Ffyniant Bro. Mae ei sylfaen dystiolaeth yn hysbysu argymhellion ar gyfer newid polisi o gystadleuaeth unigolyddol i gydweithrediad traws-sector, galwadau gan gyllidwyr i ddata gwell gael ei gynhyrchu a'i reoli, i gasglu tystiolaeth bellach a rhannu'r 'gwerthoedd' lluosog i'r economi a chymdeithas, a chreu llwybrau newydd i waith ymchwil i gydweithredwyr anacademaidd i wir greu diwylliant ymchwil sydd gan bawb ac ar gyfer pawb.

Nid yw cyd-greu yn ddatrysiad 'un ateb sy'n addas i bawb' ar gyfer mynd i'r afael â materion cyffredin ac mae'n rhaid ei ddefnyddio mewn ffordd ystyrlon, ond gall fod yn anodd i systemau a phrosesau presennol gyflawni'r anghenion hyn. Er y gall cyd-greu helpu i rymuso cymunedau, gall hefyd ddwysáu anghydraddoldeb os na roddir ystyriaeth briodol i'r cyd-destun. Mae buddsoddi er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn – drwy ail-ystyried dulliau cyllido, partneriaethau a modelau Ymchwil a Datblygu – yn hanfodol er mwyn harneisio potensial arloesol y Celfyddydau a Dyniaethau.

Yn ail gam y rhaglen, byddwn yn gweithredu rhai o'n hargymhellion drwy'r arolwg cyntaf erioed o bartneriaid Ymchwil a Datblygu anacademaidd AHRC a chyfres o labordai polisi gyda phob un o'r llywodraethau datganoledig a llywodraeth ganolog y DU er mwyn mynd i'r afael â'r cyfleoedd

a'r rhwystrau sy'n wynebu'r gwaith o gyd-greu Ymchwil a Datblygu traws-sector yn ein rhanbarthau a'n gwledydd.

Ymarferwyr Arloesedd Cymunedol

Mae cydweithredu yn gyfrwng grymus ar gyfer creu Cymunedau Creadigol, sy'n helpu i oresgyn anghydraddoldeb a chreu cysylltiadau. Yn llawer rhy aml, rhoddir pwyslais ar allbynnau cydweithrediad, yn hytrach na'r prosesau sy'n gallu bod yn anodd, ond angenrheidiol, ar gyfer cynnal partneriaethau. Os byddwn yn buddsoddi i gyd-greu a newid ffocws i'r hyn y gellir dysgu amdano yn broses hanfodol, gall Ymchwil a Datblygu brofi syniadau a dulliau gweithredu newydd ar gyfer creu, rhannu a defnyddio gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau cyffredin.

Er mwyn gweithredu ein hargymhelliad i fuddsoddi i gyd-greu, mae Cymunedau Creadigol yn lansio [Cynllun Peilot Ymarferwyr Arloesedd Cymunedol]

(https://www.creativecommunities.uk/research_articles/community-innovation-practitioners/).

Drwy'r cynllun peilot arloesol hwn, bydd pum Ymarferydd Arloesedd Cymunedol yn gweithio mewn prosiectau ymchwil traws-sector cydweithredol yng Nghyfrifon Cyflymu Effaith AHRC o fis Medi 2023 i fis Medi 2024.

Ein [Ymarferwyr Arloesedd Cymunedol]

(https://www.creativecommunities.uk/research_articles/community-innovation-practitioners/) yw:

- Gaston Welisch (Cyfrif Cyflymu Effaith Prifysgol Glasgow) – Cymhwyso Arloesedd a Arweinir gan Ddyluniad i Wella Ymchwil a Datblygu wedi'i Gyd-greu yn y Gymuned
- Jim Donaghey (Cyfrif Cyflymu Effaith Prifysgol Ulster) – Sicrhau Parc Sglefrfyrrddio i Portrush! Datblygu Diwylliant Sglefrfyrrddio ar Arfordir Gogledd Iwerddon
- Áine Brady (Cyfrif Cyflymu Effaith Prifysgol Queens Belfast) – Defnyddio'r Celfyddydau i Rymuso Cymunedau i Dorri Cylchoedd o Gadw'n Dawel
- Georgina Aasgaard (Cyfrif Cyflymu Effaith Prifysgol Lerpwl) – Meithrin Llesiant drwy Gydweithrediad a Chyd-Greu Cerddoriaeth yn y Gymuned
- Alexander Langlands (Cyfrif Cyflymu Effaith Prifysgol Abertawe) – Treftadaeth mewn Perygl: Cymunedau Creadigol ar gyfer Lleoedd Grymus Creadigol yn Ne Cymru Ddad-ddiwydiannol

Wedi'u lleoli ar draws pedair gwlad y DU, bydd ein cynlluniau Peilot Ymarferwyr Arloesedd Cymunedol yn cydweithio gyda phartneriaid traws-sector i fynd i'r afael â'r meysydd her allweddol a nodwyd gan agenda ffyniant bro llywodraeth y DU: addysg a sgiliau, iechyd a llesiant, yr amgylchedd a hinsawdd a hunaniaeth ac ymfalchïo mewn lle. Drwy ganolbwyntio ar y broses o gydweithrediad traws-sector, bydd eu hymchwil yn casglu gwybodaeth newydd allweddol am fethodolegau cyd-greu a rolau cymunedau a phartneriaid anacademaidd wrth hybu modelau arloesi mwy cynhwysfawr. Gallai'r wybodaeth newydd hon greu buddiannau yn y sector celfyddydau a Dyniaethau a thu hwnt, gan gynnig mewnwelediadau hanfodol ar arferion cydweithredol a methodolegau cyd-greu a fydd o fudd i'r ecosystem Ymchwil a Datblygu ehangach.

Bydd pob Ymarferydd Arloesedd Cymunedol yn creu astudiaeth achos o'u prosiect, gan gynnig mewnwelediad i'r partneriaethau, y prosesau a'r polisiau sy'n siapio ac sy'n cael eu siapio gan y cymunedau lleol sy'n gweithio gyda hwy. Bydd yr Ymarferwyr hefyd yn gweithio gyda chynhyrchydd podlediad i greu podlediad sy'n cofnodi lleisiau'r holl gyfranogwyr sy'n gysylltiedig â'u gwaith Ymchwil a Datblygu ar y cyd. Bydd cyfres o bodlediadau pum rhifyn a fydd yn adlewyrchu ar yr hyn a ddysgwyd drwy'r cynlluniau peilot ar gael i'w lawrlwytho yn ystod yr hydref 2024.

Gyda'i gilydd, bydd y pum Ymarferydd Arloesedd Cymunedol yn creu rhwydwaith cenedlaethol wedi'i hwyluso gan raglen o fentoriaeth, gweithgareddau hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau wedi'u darparu gan y tîm Cymunedau Creadigol. Bydd y Rhwydwaith o Ymarferwyr yn creu cymuned ymarfer newydd er mwyn rhannu'r dysgu a datblygu ffyrdd newydd o gefnogi Ymchwil a Datblygu cydweithredol.

Hefyd, bu'r cynllun peilot Ymarferwyr Arloesedd Cymunedol yn treialu dyluniad prosesau ymgeisio newydd ac agor llwybrau newydd i gydweithredwyr anacademaidd i bartneriaethau ymchwil. Gallai ymgeiswyr ddewis rhwng cyflwyniad ysgrifenedig 1000 o eiriau neu gais fideo 8 munud er mwyn arddangos lleisiau eu partneriaethau a'u lleoedd. Drwy werthuso'r prosesau ymgeisio newydd hyn, bydd y rhaglen Cymunedau Creadigol yn cyfrannu at ddatblygiad fframweithiau ymchwil a datblygu mwy amrywiol a theg a chreu ecosystemau arloesi mwy cynhwysol.

Labordai Polisi

Mae ein hadroddiad yn dangos tystiolaeth o sut a pham y gall Cymunedau Creadigol 'beillio polisi' wrth ymgysylltu mewn partneriaethau amrywiol sydd wedi'u gwreiddio mewn diwylliant lleol. Mae'r cysylltiad hwn yn datblygu gwybodaeth newydd sy'n gwella dealltwriaeth o benderfyniadau polisi rhanbarthol a gall helpu i siapio datblygiad polisiau cenedlaethol. Er mwyn datblygu'r gallu hwn i greu polisiau ar y cyd, mae'r rhaglen Cymunedau Creadigol yn cynnal cyfres o Labordai Polisi ledled y DU yn ystod y Gwanwyn 2024.

Gan ddefnyddio methodolegau hwyluso creadigol arbrol, bydd y labordai yn harneisio prosesau cyd-greu i uno ystod amrywiol o randdeiliaid traws-sector o amgylch cyfres o feysydd her allweddol mewn Ymchwil a Datblygu gyda'r nod o gynhyrchu awgrymiadau ar gyfer datrysiadau newydd. Er mwyn casglu syniadau allweddol a chysylltu gwahanol gyd-destunau polisi'r rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig, bydd yr hyn a ddysgir o'r labordai ar gael ar fforwm polisi mynediad agored newydd a gynhelir ar wefan y rhaglen o hydref 2024.

Safbwyntiau Partneriaid

Drwy fapio gwaith Ymchwil a Datblygu cydweithredol ledled y DU, nododd ein hadroddiad am y tro cyntaf, y 1600 a mwy o bartneriaid anacademaidd sydd wedi cydweithio gydag AHRC mewn gwaith Ymchwil a Datblygu diwylliant a chymunedau. Ond nid yw llawer o brofiadau'r partneriaid cydweithredol hyn wedi'u cofnodi. Mae angen y wybodaeth i atgyfnerthu'r ddealltwriaeth o'r hyn sy'n cymhell partneriaid anacademaidd i ymgysylltu mewn Ymchwil a

Datblygu cydweithredol, yr hyn y mae pob partneriaeth yn ei ysgogi, beth sy'n gweithio a pha rwystrau sy'n atal twf yn y dyfodol a chynyddu cydweithio traws-sector.

Mewn ymateb i'r angen hwn a nodwyd, yn ystod yr hydref 2023 bydd y rhaglen Cymunedau Creadigol yn cynnal yr arolwg cyntaf erioed o bartneriaid anacademaidd sydd wedi cymryd rhan mewn ymchwil AHRC o 2012-22. Bydd yr arolwg yn gofyn i dderbynwyr cyllid blaenorol fyfyrion ar eu profiad, dysgu, cyfleoedd, a rwystrau wrth weithio fel rhan o Gymuned Greadigol. Nod yr arolwg fydd nodi cyfleoedd a gofynion yn ymwneud â sgiliau, adnoddau a seilwaith, gan gynnig cyfleoedd i adeiladu a chyflwyno partneriaid newydd i gydweithrediadau ymchwil yr AHRC yn y dyfodol.

Gan Bawb, i Bawb

Er mwyn datgloi ecosystem arloesedd y DU, mae'n rhaid i wahanol sectorau flaenoriaethu ymgysylltiad cymunedol ac Ymchwil a Datblygu mewn partneriaeth, er mwyn creu rhwydwaith cyfoethog, amrywiol a hyblyg o wybodaeth a fydd yn gallu hybu twf economaidd ac ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Prif Weithredwr Christopher Smith yn bendant iawn ynghylch ymrwymiad AHRC: "Dylai pawb ym mhobman elwa o ymchwil a datblygu a chael y cyfle i wneud hynny trwy greadigrwydd a diwylliant ar lefel leol, waeth beth fo'u lleoliad, eu modd neu eu cefndir. Ac mae'n rhaid i'r celfyddydau a'r Dyniaethau barhau i arloesi gyda systemau cyllido, dulliau gwybodaeth a chyfnewid a chynnyrch a gwasanaethau sy'n newid bywydau pobl".

Drwy ddarparu gwybodaeth newydd am weithgareddau yn y gorffennol a nodi meysydd twf posibl, mae'r adroddiad hwn yn eirioli dull traws-sector cydgysylltiedig ar gyfer arloesi gyda modelau cyllido a llywodraethu ymchwil a datblygu er mwyn dod â phartneriaid at ei gilydd i gydweithio yn hytrach na chystadlu, er mwyn datblygu ymchwil a datblygu gan bawb, i bawb.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am raglen Cymunedau Creadigol AHRC yn:

<https://www.creativecommunities.uk/>

Yr Athro Katy Shaw, Cyfarwyddwr Rhaglen, AHRC Cymunedau Creadigol

<https://www.creativecommunities.uk/team/prof-katy-shaw/>

Dr Lauren Baker Mitchell, Uwch Gymraud Ymchwil, AHRC Cymunedau Creadigol

<https://www.creativecommunities.uk/team/dr-lauren-baker-mitchell/>